**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH** |
| **SUBJECT:** | **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 9 MEHEFIN 2021 DYDD MERCHER, 9 MEHEFIN 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Michelle Hicks (Ysgrifennydd) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Pob Cynghorydd (Monitro) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Andrea Prosser (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Hysbysu) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>Prif Swyddog Interim Masnachol | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>Mr. R. Crook,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>Eitem Rhif 5 – Cronfa Adnewyddu Cymunedol | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 4** | **<u>CRONFA ADNEWYDDU CYMUNEDOL (CRF)</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad hwn gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol bwyntiau allweddol yr adroddiad sy'n rhoi manylion ar y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r broses asesu prosiectau lleol gysylltiedig. Bydd y rhestr fer o brosiectau a gynigir yn ffurfio cais Blaenau Gwent i'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a cheisiai gymeradwyaeth i ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn y Cynnig Prosiect | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflogadwyedd Rhanbarthol (CELT). Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y Deyrnas Unedig a pharatoi cyflwyniad Cyngor Blaenau Gwent.<br><br>Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol hefyd drosolwg o'r trafodaethau yn y Pwyllgor Craffu Adfywio. Teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd yr holl faterion o gonsyrn eu trin a chefnogwyd yr adroddiad a'r prosiectau a gyflwynwyd.<br><br>Ar wahoddiad yr Arweinydd, rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fanylion y prosiectau ar y rhestr fer yn ogystal â phrosiectau nad ydynt ar y rhestr fer.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn yng nghyswllt symiau a ddynodwyd i gynigion penodol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod y symiau a fanylir yn yr adroddiad ar gyfer y prosiect penodol.<br><br>Croesawodd Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad a dymunai ddiolch i'r swyddogion a'r panel a weithiodd yn galed i sicrhau y cafodd y cynigion eu cyflwyno o fewn amserlenni tyn. Teimlai'r Aelod Gweithredol y byddai cyfle am gydweithio yn y dyfodol a gellid ymchwilio gweithio partneriaeth.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 fel y'i manylir yn yr adroddiad. | |